



Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

30 Mehefin 2025

Annwyl Mike

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Mehefin ynglŷn â'n hymateb i'ch adroddiad ynghylch Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025 (y Gorchymyn).

Mae eich llythyr yn ymdrin â'r gweithdrefnau yr ymgwymerwyd â hwy cyn i'r Gorchymyn gael ei osod gerbron y Senedd. Fel y nodwyd gan y Pwyllgor, mae'r Gorchymyn yn eithriadol o fawr, a hwn yw'r tro cyntaf iddo gael ei lunio'n ddwyieithog. Gallwch fod yn dawl eich meddwl bod y Gorchymyn wedi mynd trwy broses wirio drylwyr. Serch hynny, oherwydd natur eang a chymhleth y Gorchymyn, mae camgymeriadau dynol bob amser yn bosibl. Nid oedd yr anghysondebau a nodwyd rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yn sylweddol, ac rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am oruchwylio'r broses o ystyried y Gorchymyn yn ofalus ac yn fanwl.

O ran eich pryder penodol mewn perthynas â'r bwriad i ddiwygio'r mân wallau a nodwyd cyn i'r Gorchymyn gael ei wneud, rwy'n fodlon nad yw defnyddio'r broses gywiro yn yr achos hwn yn afresymol nac yn amhriodol.

Mae pob un o'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn ofalus. Mae'r diwygiadau yn fân iawn, ac nid yw unrhyw un ohonynt yn newid y Gorchymyn yn sylweddol mewn unrhyw ffordd, nac yn newid ei fwriad sylfaenol. Hefyd, nid yw unrhyw un o'r diwygiadau yn newid ystyr nac effaith gyfreithiol unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a fydd yn cael eu diwygio. Felly, rwy'n fodlon nad yw'r cywiriadau, o'u hystyried yn eu cyfanrwydd, yn newid y Gorchymyn yn sylweddol.

Gwnaethoch gyfeirio hefyd at ddiwygiadau a fydd yn cael eu gwneud i'r fersiwn Gymraeg o'r Gorchymyn er mwyn mewnosod termau diffiniedig wedi eu haddasu yn rheol 2(2) o Reolau Deisebau Etholiad 1960. Gallaf sicrhau'r Pwyllgor y bydd testun cyfan yr holl ddiffiniadau yn cael ei nodi yn Saesneg, fel y mae'r diffiniadau yn ymddangos yn y fersiwn Saesneg o'r Gorchymyn. Ymddiheuraf os nad oedd hyn gwbl eglur yn ein hymateb.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O ran y mater ar wahân a godir gennych ynghylch cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig, mae cynlluniau peilot yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd mewn pedwar awdurdod lleol yng Nghymru a byddant yn dod i ben ym mis Medi. Fel sy'n ofynnol gan y Rheoliadau a basiwyd gan y Senedd, bydd y Comisiwn Etholiadol yn darparu adroddiad gwerthuso i Weinidogion Cymru ar y modelau peilot erbyn diwedd y flwyddyn. Ar ôl hyn, bydd yr adroddiad yn cael ei ystyried yn drylwyr er mwyn llywio'r is-ddeddfwriaeth ychwanegol, yr hyfforddiant, a'r newidiadau cynhwysfawr i systemau, sy'n ofynnol ar gyfer cyflwyno cofrestru awtomatig ymhellach. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd maes o law.

Hyderaf fod hyn yn mynd i'r afael â phryderon y Pwyllgor ac edrychaf ymlaen at ystyriaeth y Senedd o'r Gorchymyn ar 8 Gorffennaf.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gwir Anrhydeddus Eluned Morgan AS, Prif Weinidog Cymru, Julie James AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, a'r Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS, y Llywydd.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Jayne Bryant". The script is cursive and fluid, with the first name "Jayne" and the surname "Bryant" clearly distinguishable.

Jayne Bryant AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government